Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Sefydliad y Merched
Cyngor Gwynedd
Horizon
Cyngor Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Cynrychiolydd Undeb Llafur, Traws

2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorff 2020

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 30 Gorffennaf 2020 eu cyflwyno a'u derbyn fel cofnod cywir - (MB/AR). Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 hefyd eu cyflwyno i'w cymeradwyo ar ôl eu hepgor yn anfwriadol o'r Agenda ar 30 Gorffennaf 2020. Cadarnhawyd bod y cofnodion hyn hefyd yn gofnod cywir.

3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30.7.20

Ni chodwyd unrhyw fater

4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac roedd am ddiolch i Gyfarwyddwr y Safle am roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am faterion ers cyfarfod diwethaf y Grŵp yn ystod y cyfnod anodd hwn yn sgil COVID 19.

Cyfeiriodd at y cyfarfod rhithiol diweddar a gynhaliwyd er 30 Gorffennaf 2020.

- Cyfarfod Cadeirydd yr NDA 18 Medi 2020 – roedd y drafodaeth yn ymwneud yn bennaf â datgomisiynu parhaus a nododd ei bod yn braf bod Trawsfynydd wedi'i nodi fel y prif safle.
- Cyfarfod Cadeiryddion Magnox 27 Tachwedd 2020 – nododd y Cadeirydd nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn; fodd bynnag, roedd John Richards, Dirprwy Gadeirydd, yn bresennol. Dywedodd JR fod ganddo broblemau TG ac mai dim ond ar gyfer trosolwg Gwen Parry Jones yr oedd wedi gallu cysylltu - roedd hwnnw'n cyfeirio'n bennaf at faterion yn ymwneud â COVID 19.
- Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol byr ar 2.12.20 gyda David Peattie a Chadeirydd newydd yr NDA. Nododd ei fod yn gyfle i fynegi gwerthfawrogiad ar ran Grŵp Rhanddeiliaid y Safle fod Trawsfynydd wedi'i enwebu fel y prif safle ar gyfer datgomisiynu parhaus. Nododd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi pwysleisio'r canlynol iddynt:
 - Rheilffordd Blaenau Ffestiniog i aros ar yr agenda ar gyfer yr holl drafodaethau sydd ar y gweill gan fod y rheilffordd yn elfen allweddol o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. Mewn ymateb i ymholiad gan Roy Trappe am ddyfodol y rheilffordd, ailadroddodd y Cadeirydd ymrwymiad y Grŵp Rhanddeiliaid i sicrhau dyfodol y rheilffordd.
 - Rhoddir blaenoriaeth i'r Iaith Gymraeg drwy wahaniaethu cadarnhaol ym mhob trafodaeth, cyfathrebiad a gweinyddiaeth. Mae hyn hefyd yn allweddol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
 - Mae'r Grŵp yn croesawu gweithgareddau hamdden a chynnal a chadw bywyd gwyllt ar y llyn a datblygiadau pellach sydd i'w hybu yn y cyfeiriad hwn.

Nododd y Cadeirydd hefyd fod y mater ynglŷn ag awyren ar y llyn bellach wedi cael ei cyfeirio at dîm cyfreithiol Magnox i'w ddatrys.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr Cau'r Safle - Angharad Rayner

Cyfeiriodd Angharad Rayner at yr adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd yn flaenorol ym mhapurau'r cyfarfod. Roedd hefyd yn dymuno rhannu fideo gwybodaeth byr i staff ar hylendid dwylo – 'Be like Graig' a nododd fod hwn ar gael ar YouTube ac i'w rannu'n ehangach ar gais.

Dyma grynodedb o'i hadroddiad:-

COVID 19

Ar 11 Tachwedd, bu'n rhaid mynd ati'n gyflym ac yn rhagweithiol i gwtogi ar nifer o weithgareddau a graddol leihau nifer y gweithwyr ar y safle gan fod nifer fach o weithwyr wedi cael prawf positif am Covid-19 a bod rhai gweithwyr yn y gymuned leol wedi cael gorchymyn gan wasanaeth Profi ac Orlhain y GIG i hunanynysu. Gweithiodd y staff ar y cyd â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol a oedd yn ategu'r ymateb ac yn cytuno bod yr holl drefniadau'n gadarn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un wedi dod â'r feirws i'r safle o ardal risg uchel, fodd bynnag, mae monitro unigolion sy'n dod i'r safle o ardaloedd risg uchel yn parhau. Mae gorchuddion wyneb wedi cael eu cyflwyno a phurwyr aer wedi cael eu gosod mewn cyfleusterau lles ac mae adolygiad o dechnolegau newydd a allai helpu i ganfod achosion positif posibl yn parhau.

Canolbwyntio ar Ddiogelwch

Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 1548

Cynhaliwyd ymgyrchoedd diogelwch Targed Sero misol ynghylch diogelwch trydanol, diogelwch tân ac adborth o brofiad gweithredol, sef y prosesau y mae pob safle yn eu rhoi ar waith i geisio defnyddio gwersi a ddysgwyd i wella diogelwch a dibynadwyedd ac i atal colled. Roedd ymgyrch y mis hwn yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac roedd y deunydd yn bwerus iawn a chawsom adborth cadarnhaol ar yr ymgyrch. Yr wythnos diwethaf cawsom Arolygiad Diogelu a wnaeth hefyd roi adborth cadarnhaol ar ein trefniadau ar gyfer delio â deunydd niwclear.

Proffil y gweithlu

Mae 11 o bobl leol wedi cael eu recriwtio i gefnogi'r cynnydd mewn gwaith peiriannau a strwythurau.

Mae'r dadansoddiad fel a ganlyn:-

Magnox	147
Gweithwyr a gyflenwir gan asiantaeth	51
Gweithwyr a gyflenwir gan gontractwyr	14
Cyfanswm	212
% y gweithwyr lleol	97%

Cynnydd ar y Safle

Cyrhaeddodd uned fodiwlaid newydd ym mis Medi i ddarparu lle ychwanegol i sicrhau bod y prif gontractwr, Erith, yn cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol Covid-19 ac i alluogi gweithrediadau arferol i ailddechrau

Cododd craen 130-tunnell danc 17-tunnell Camsey wedi'i leinio â phlwm i gynhwysydd ISO wedi'i atgyfnerthu i'w gludo i gyfleuster toddi gwastraff metalig lefel isel Saudsvik yn Sweden.

Ar 3 Medi, cymeradwyodd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear gais y Safle i gwblhau'r garreg filltir ddiweddaraf, LC35.06, sy'n gysylltiedig â chwblhau'r gwaith o adfer, prosesu a storio dros dro yr holl wastraff lefel ganolraddol gwlyb ar y safle. Cafodd y llwyth gwastraff lefel isel cyntaf ers y saib gweithredol ei anfon at Tradebe, Southampton ym mis Medi. Dechreuodd y gwaith o adfer malurion elfennau tanwydd (FED) ym mis Medi, gan ddechrau gyda blwch saith yng ngwaith y de. Bwriedir i'r broses o grafu ac adfer FED gweddillol o gorneli'r fowtiau redeg tan ganol mis Ionawr yng ngwaith y gogledd.

Targedau Cyflawni Gwastraff Ymbelydrol		
Gweithgaredd	Targed	Cyflawnwyd
Llwythi gwastraff lefel isel	10 erbyn 31.3.21	2
Adfer FED y Gogledd (Carreg filltir gyflawni gan yr NDA)	64 blwch erbyn 31.3.21	60
Adfer FED y De	36 blwch erbyn 31.3.21	10

Mae'r prosiect gwerth £1.8 miliwn i uwchraddio cwlfer gwyrô'r safle, yr orsaf bwmpio ac adeiladu ffordd fynediad newydd a rennir o gompownd y grid cenedlaethol yn mynd rhagddo'n dda dan ofal partner y contract, JN Bentley.

Cafodd falf un-cyfeiriad ddiffygiol yn system pwmpio slwtsh gwaith carthffosiaeth y safle ei newid, yn dilyn llawer o waith paratoi i adnabod y falf gywir a chael gfael ar un newydd oherwydd addasiadau hanesyddol.

Mae tanc gwely cymysg segur o'r gwaith trin elifion gweithredol hanesyddol wedi cael ei ddatgymalu. Roedd y gwaith hwn yn golygu lleihau maint y tanc a'i lanhau a chael gwared ag unrhyw resin gweddilliol.

Dechreuodd OBR, partner contract, weithio i drwsio to swyddfeydd Pen y Bryn ym mis Medi.

Tynnu creiddiau biodarian - bydd Erith, mewn partneriaeth ag OBR, yn cyflawni gwaith dros y misoedd nesaf i dynnu tri chraidd biodarian o'r adweithydd drwy ddyfnder llawn y concret, sef 3.1 metr, er mwyn cynnal dadansoddiad radiolegol a chemegol.

Diolchodd y Cadeirydd i AR am ei chyflwyniad gan ei chanmol am roi blaenoriaeth i'r Gymraeg.

6. Ardal Fenter Eryri – Dr John Idris Jones

Croesawyd Dr John Idris Jones i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad cryno i'r aelodau ar ddatblygiadau'r Ardal Fenter fel a ganlyn:-

Llanbedr

Mae'r safle'n parhau i ddatblygu. Cyfeiriodd JIJ at y cynnydd arfaethedig yn y defnydd lansio, yn benodol, Rockoon lle bydd balwn yn cael ei lansio i'r stratosffer.

Mae Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru yn defnyddio'r safle i dreialu'r defnydd o ddronau i ddanfôn deffibrilyddion i ardaloedd anghysbell.

Mae gwaith yn parhau ar y seilwaith ar gyfer ffordd osgoi Llanbedr.

Trawsfynydd

Nododd JIJ fod Parth Menter Eryri yn croesawu'r rôl arweiniol y bydd Trawsfynydd yn ei chwarae o ran datgomisiynu parhaus.

Dywedodd y bydd bwrw ymlaen â'r cydweithio gyda Magnox a'r NDA yn datblygu'r gefnogaeth ar gyfer prosiectau arloesol llai ar y Safle.

Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd partneriaethau cadarnhaol rhwng Prifysgol Bangor a Choleg Menai Llandrillo. Ategodd fod Bwrdd yr Ardal Fenter wrthi'n asesu rhinweddau SMRs ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd hefyd yn cefnogi parhau i ddefnyddio a chynnal a chadw llinell reilffordd Blaenau Ffestiniog i'w defnyddio yn y dyfodol.

Yn olaf, cyfeiriodd at fwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu cwmni datblygu - a elwir yn Gwmni Eginio - a fydd yn helpu i fanteisio ar fuddion economaidd adweithyddion modiwlwr bach a thechnolegau cysylltiedig ar y safle, gan gynnwys y potensial ar gyfer adweithydd ymchwil meddygol, i ddarparu cyflenwad diogel a chynaliadwy o radioisotopau meddygol ar gyfer Cymru, y DU ac Ewrop.

7. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear - Ian Dallas

Dosbarthwyd adroddiad ysgrifenedig yn flaenorol gyda'r papurau a nododd Mr Ian Dallas, a oedd wedi ymddiheuro ar gyfer y cyfarfod hwn, y byddai'n fodlon ymateb i unrhyw ymholiadau/materion drwy e-bost.

8. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru - Iwan Williams

Croesawyd Mr Iwan Williams i'r cyfarfod. Eglurodd fod cyswllt rhwng safle Trawsfynydd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei gynnal dros y we dros y misoedd diwethaf. Nododd hefyd na fu unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol arwyddocaol ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

9. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd – Mike Baggs

Cyflwynodd Mike Baggs adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd gyda phapurau'r cyfarfod ar ran y ddau sefydliad (Cyfoeth Naturiol Cymru ac AyrA) gan nodi ei fod yn ymdrin â'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar 30 Gorffennaf 2020. Nododd y canlynol:-

- Ni fu unrhyw ymweliadau â'r Safle oherwydd COVID 19, fodd bynnag, roedd ymgysylltu rheolaidd yn digwydd bron bob wythnos neu bob yn ail wythnos
- Ni chynhaliwyd nifer o weithgareddau cydymffurfio yn unol â'r trefniadau arferol yn ystod y cyfnod oedi; fodd bynnag, rhoddodd Magnox Ltd gyfiawnhad dros y newidiadau hyn, a oedd yn cael eu

hystyried yn rhesymol o ystyried yr amgylchiadau digynsail a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig a chyfyngiadau'r llywodraeth.

- Nodwyd nifer o 'achosion technegol' o dorri amodau'r drwydded amgylcheddol gweithgarwch sylweddau ymbelydrol; fodd bynnag, ni chafodd y rhain unrhyw effaith ar yr amgylchedd.
- Roedd Magnox Ltd yn cymryd agwedd ofalus tuag at ddychwelyd i'r safle, a nodwyd mewn Cynllun Ansawdd manwl. Cafodd y gwaith o gwblhau'r Cynllun Ansawdd ei fonitro drwy ryngweithio rheoleiddiol arferol, a dychwelodd Magnox Ltd i gydymffurfio'n llwyr erbyn diwedd mis Medi 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i Mike Baggs am ei ddiweddariad.

10. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear - Jonathan Jenkin

Croesawyd Jonathan Jenkin i'r cyfarfod a rhoddodd grynodedb o adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

COVID 19

Dywedodd JJ fod Grŵp yr NDA yn parhau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig. Dywedodd fod cynnydd da wedi'i wneud o ran ailddechrau gweithrediadau safle ar draws Grŵp yr NDA ers diwedd y cyfyngiadau symud cyntaf. Mae staff Canolfan Gorfforaethol yr NDA yn parhau i weithio gartref ac eithrio mynediad/teithio hanfodol i'r swyddfa, ac iechyd, diogelwch a lles staff yw'r brif flaenoriaeth o hyd

Penodiadau Newydd

Dechreuodd Dr Ros Rivaz, y Cadeirydd sydd newydd ei phenodi, gyda'r NDA ar 1 Medi 2020. Dechreuodd ei gyrfa yn ExxonMobil, gan arbenigo mewn arweinyddiaeth yn y gadwyn gyflenwi ac mae wedi gweithio mewn swyddi uwch i Tate a Lyle, ICI, Diageo a Premier Foods, a hi oedd Prif Swyddog Gweithredu Byd-eang Smith & Nephew rhwng 2011 a 2014.

Cyfeiriodd JJ hefyd at benodi Francis Livens i Fwrdd yr NDA. Mae ganddo dros 35 mlynedd o brofiad ym maes ymchwil niwclear. Mae'n Athro mewn Radiocemeg ac yn Gyfarwyddwr Athrofa Dalton Prifysgol Manceinion. Mae hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cynghori ar Arloesi ac Ymchwil Niwclear ac o Banel Cynghori Annibynnol y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.

Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol / Gwrandawriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadroddiad ar derfynu contract Magnox ar 9 Medi 2020. Dywedodd JJ ei bod yn braf bod yr adroddiad yn cydnabod y ffordd lwyddiannus y negododd yr NDA ddiwedd y contract, mewn amgylchiadau heriol iawn, ac yn cydnabod rhywfaint o gynnydd pwysig ar safleoedd Magnox.

Gweithgor GDF

Mae Radioactive Waste Management (RWM) wedi croesawu'r ffaith fod Gweithgor cyntaf wedi'i sefydlu yn Copeland sy'n cael ei ystyried yn gam

pwysig yn y rhaglen Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF). Bydd y Gweithgor yn dechrau trafodaethau lleol a chanfod ffeithiau am y posibilrwydd o leoli GDF yn Copeland. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd GDF yn cael ei leoli yn Copeland nac yn atal cymunedau eraill rhag sefydlu Gweithgorau.

Strategaeth Ddrafft 4 yr NDA

Atgoffodd JJ yr aelodau fod yn rhaid adolygu Strategaeth yr NDA o leiaf bob 5 mlynedd a bod y Strategaeth bresennol wedi'i chyhoeddi yn 2016.

Cyhoeddwyd Strategaeth Ddrafft 4 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Awst ac 8 Tachwedd a bydd y Strategaeth derfynol wedi'i chymeradwyo yn cael ei chyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2021. Disgrifiodd JJ ddau gam y broses fel a ganlyn:-

- Cam cyn ymgysylltu
Anfon pecynnau gwybodaeth at randdeiliaid allweddol
Rhith-gyfarfodydd (Fforwm Cyrff Anllywodraethol, is-grwpiau Grwpiau Rhanddeiliaid Safle, Grwpiau Trosolwg Thema etc)
- Cam ymgynghori
Cyhoeddi'r ddogfen lawn ar gov.uk
Hyrwyddo S4 ar y cyfryngau cymdeithasol
Rhith-gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys digwyddiad cenedlaethol i randdeiliaid, Fforwm Cyrff Anllywodraethol, NuLeAF etc

Hyd yma, mae oddeutu 70 set o sylwadau wedi dod i law gan amrywiaeth o randdeiliaid. Byddant yn cael eu hystyried yn ofalus ac, os oes modd, rhoddir sylw iddynt yn y drafft terfynol.

Cynllun Busnes Drafft

Bydd cynllun busnes Drafft yr NDA yn cael ei gyhoeddi ar 8 Rhagfyr 2020 a bydd yn nodi'r cynlluniau gwariant a'r blaenoriaethau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021 – 2024. Cynhelir cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 8 wythnos a gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno eu sylwadau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Mynegodd y Cadeirydd rywfaint o bryder ynghylch y cyfnod ymgynghori o 8 wythnos gan y bydd hyn yn cynnwys y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac y gallai lesteirio ymatebion.

Roedd JJ yn cydnabod bod hwn yn bwynt da y byddai'n ei ddwyn yn ôl i Grŵp yr NDA; fodd bynnag, nododd fod y dyddiad cyhoeddi o 31.3.20 wedi'i nodi yn amserlen y ddeddfwriaeth.

11. Y diweddaraf am brosiect dymchwel cyfadeilad y pyllau – Ian Warner

Croesawyd Mr Ian Warner i'r cyfarfod a rhoddodd adroddiad diweddarau yn tynnu sylw penodol at y canlynol:

Y cynnydd diweddaraf

- Cynhaliwyd y treial "Arwain a Dysgu" GRR Drafft yn 2016/17
- Datblygwyd strategaeth cyflwr terfynol ddrafft amgen ar gyfer y safle
- Cafodd y dull strategol newydd ei dderbyn gan yr NDA yn 2018

- Mae'r gwaith datblygu i gefnogi dymchwel cyfadeilad y pyllau a'r gwaith gwaredu cysylltiedig ar y safle yn mynd rhagddo
- Rhagwelir y bydd pob caniatâd angenrheidiol yn cael ei geisio yn 2021/2022 – os bydd COVID yn caniatáu
- Dymchwel cyfadeilad y pyllau wedi'i drefnu ar gyfer 2024

Gwireddu Cyflwr Terfynol cyfadeilad y pyllau

- Cyflwr Terfynol - Parodrwydd ar gyfer Dymchwel
Mae'r adeiladau'n barod i'w dymchwel ar ôl tynnu'r offer
- Cyflwr Terfynol - Cau
Adeiladau wedi'u dymchwel a gwagleoedd wedi'u llenwi, wedi'u capio yn unol â'r dyluniad peirianeg
- Cyflwr Terfynol - Y Diwedd Un
Cwblhau'r gwaith tirweddu terfynol ar ôl clirio'r safle'n derfynol

I grynhoi

Mae'r GRR yn pennu nodau rheoleiddio ar gyfer glanhau safleoedd niwclear:

- Gwell cynlluniau rheoli gwastraff
- Gwaredu gwastraff yn y ffordd orau bosibl
- Safonau diogelwch amgylcheddol ar gyfer ildio trwyddedau

Mae hyn yn golygu bod modd rheoli gwastraff ymbelydrol o ddatgomiynu niwclear yn gynaliadwy ac mae'n rhan o'r darlun ehangach o ran cynlluniau Llywodraeth y DU a'r Weinyddiaeth Ddatganoledig ar gyfer camau terfynol datgomiynu niwclear

Sesiwn Holi ac Ateb

Diolchodd JIJ i IW am ei gyflwyniad manwl gan nodi bod y cynnwys yn disgrifio'r camau sydd i'w cymryd i ddelio â gwastraff mewn ffordd gynaliadwy, yn gymesur â'r pryderon. Gofynnodd a fyddai IW yn gallu cyflwyno i Ardal Fenter Eryri a gofynnodd hefyd a fydd unrhyw ymgynghoriadau ar ddatblygiadau ar y safle yn y dyfodol.

Dyweddodd IW ei fod yn hapus i gyflwyno i Fwrdd Ardal Fenter Eryri a chadarnhaodd y bydd prosesau ymgynghori yn rhan annatod o ddatblygiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i IW am ei gyflwyniad ac ailadroddodd fanteision parhau i drafod yn agored rhwng yr holl bartïon.

12. Dadgomiynu adweithyddion parhaus – Sohail Ashrafif

Croesawyd Mr Sohail Ashraif i'w gyfarfod cyntaf a rhoddodd gyflwyniad fel Rheolwr Rhaglen ar gyfer Dadgomiynu Adweithyddion Parhaus. Nododd fod hwn yn gyfnod cyffrous yn Nhrawsfynydd ar ôl i'r safle gael ei dynodi'n un arloesi. Cyfeiriodd at y cyfleoedd ar gyfer dysgu arloesol yn lleol ym maes peirianeg; cyflawni prosiectau; rheoli gwastraff a swmp ddymchwel a fydd yn cael eu cyflwyno ledled y DU a'r tu hwnt. Disgrifiodd y weledigaeth Cyflawni'n Wahanol gan ddefnyddio adnoddau lleol fel a ganlyn:

Camau a gymerwyd

- Astudiaethau datgymalu adweithyddion ar waith
- Cynllun wedi'i ddatblygu ar gyfer gwaith tymor byr
- Cyflawni ar draws nifer o safleoedd ar yr un pryd

Heriau mawr

- Cychwyn y rhaglen datgomisiynu adweithyddion yn Nhrawsfynydd
- Gweithio gyda'r Gadwyn Gyflenwi i ddatblygu'r ateb mwyaf priodol
- Buddsoddi a chydweithio â thechnoleg newydd

Y ffocws ar hyn o bryd

- Mae achos busnes i'r rhaglen yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer y strategaethau penodol i'r safle gyda dyddiad cyflwyno targed o fis Mawrth/Ebrill 2021
- Achos amlinellol strategol i'w ysgrifennu ar gyfer Trawsfynydd fel y safle arwain a dysgu gyda dyddiad cyflwyno targed o fis Medi/Hydref 2021

Sesiwn Holi ac Ateb

Diolchodd y Cadeirydd i SA am ei gyflwyniad clir a manwl yn amlinellu'r cynigion ar gyfer datblygiadau posibl yn y dyfodol.

Diolchodd John Idris Jones hefyd i SA am ei gyflwyniad gan bwysleisio bod cydweithio rhwng pawb sydd â diddordeb yn hollbwysig. Gofynnodd am i gwmnïau Gogledd Cymru gael eu cynnwys mewn modd cadarnhaol gan mai'r gwaddol gorau ar gyfer safle Trawsfynydd fyddai gwaith lleol i bobl lleol a chadwyn gyflenwi gref. Dywedodd SA fod hwn yn gyfle i ddiwydiannau dyfu gyda llwybrau gyrfa diogel a phrentisiaethau ystyrlon, a bod y digwyddiad Gweminar diweddar yn argoeli'n dda gyda thrawstoriad da o gyfranwyr. Nododd hefyd ei fod yn fodlon cyfarfod â JIJ i drafod ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

Holodd Rory Trappe ynghylch nifer y staff/contractwyr ar y safle? Dywedodd SA nad oedd yn gallu rhoi ffigurau ar y cam rhagarweiniol hwn ond y gallent ddod yn fwy amlwg yn nes at fis Mawrth 2021. Holodd RT a fydd Cyfleuster Hyfforddi ar y safle? Cadarnhaodd SA y byddai pob posibilrwydd yn cael ei archwilio. Cyfeiriodd JIJ at gynnig Prifysgol Sheffield i sefydlu Canolfan Datgomisiynu Genedlaethol ac os mabwysiedir model both a breichiau byddai safle Trawsfynydd yn lleoliad delfrydol ar gyfer un o'r breichiau. Anogodd Magnox a'r NDA i ymchwilio i'r cynnig hwn.

13. Cwmni Ynni Cymunedol Twrog – Dafydd Watts

Croesawyd Mr Dafydd Watts i'r cyfarfod a chyflwynodd adroddiad diweddar cryno ar Gwmni Ynni Cymunedol Twrog. Nododd y canlynol:-

- Mae Paneli Solar wedi cael eu gosod ar sawl adeilad yn perthyn i fenter gymdeithasol yn y dalgylch
- Sut mae gwresogi Tanygrisiau – menter olrhain tloidi tanwydd gyda £25K wedi'i godi ar gyfer astudiaeth arfarnu gychwynnol yn gweithio ar y cyd â Chwmni Bro Stiniog, Y Dref Werdd, Gwynedd a Chymdeithasau Tai – Adra a Cynefin.

Cyfeiriodd DW at frwdfrydedd parhaus yr aelodau a'u gwaith caled. Diolchodd i'r Cadeirydd am y cyfle i gyflwyno a nododd fod croeso i'r aelodau gysylltu ag ef i gael rhagor o fanylion.

14. Y diweddaraf am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox - Mair Jones

Croesawyd Mair Jones i'r cyfarfod, a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun economaidd-gymdeithasol:

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd yr NDA ei Strategaeth Effaith Gymdeithasol ac Economaidd Leol ar gyfer 2020. Mae'n amlinellu'r dull presennol o ymdrin ag economeg gymdeithasol ac yn cynnwys barn gyfunol ar welliannau a newidiadau a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil lansio'r arian grant newydd. Mae'r cynllun hwn ar agor yn awr i geisiadau dan System Grant 'Un NDA'. Mae hyn yn sicrhau proses gyson ar draws ystâd yr NDA.

Mae fformat y grantiau'n aros yr un fath gyda chyllid hyd at £1,000 (lefel cymydog da), ac mae disgwyl i geisiadau mwy, a cheisiadau am gyllid am sawl blwyddyn, o hyd at £200,000 gydymffurfio ag amrywiaeth o feini prawf sydd â'r nod o greu economïau cydnerth, cymunedau ffyniannus, incwm cynaliadwy a thwf ar gyfer ein cymunedau.

Yn ôl ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd Magnox a'r NDA hwb ariannol o £25,000 i helpu i gefnogi grwpiau o amgylch y safleoedd a oedd angen help gyda gweithgareddau'n ymwneud â Covid-19. Fel rhan o'r cyllid hwn, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn a dosbarthu dros £15,000 hyd yma i helpu'r gymuned yn ystod y pandemig, ar ran Magnox. Roedd y cyllid wedi prynu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer gwirfoddolwyr; peiriant argraffu 3D a deunyddiau ar gyfer Coleg Meirion Dwyfor i gynhyrchu feisorau i weithwyr gofal; boeler dŵr poeth a rhewgelloedd i Fanc Bwyd De Gwynedd i ymdopi â'r galw ychwanegol; bwyd ac oergelloedd ar gyfer banc bwyd Grandma's Attic a blychau babanod sy'n darparu eitemau hanfodol i deuluoedd mewn angen.

Dyma rai o'r grwpiau sydd wedi elwa o'r cyllid cymydog da:

- Cafodd Clwb Rygbi Blaenau Ffestiniog £600 i brynu peiriant newydd i farcio llinellau ar gyfer y clwb.
- Bu 20 o wirfoddolwyr cymunedol o Glwb Pêl-droed Amatur Blaenau Ffestiniog yn helpu'r 'Chwarelwyr' i gyrraedd eu nod o gael trwydded haen tri gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru, yn dilyn buddsoddiad o £20,000 i wella cyfleusterau Cae Clyd. Mae rhwystrau newydd ar gyfer y dorf, llwybrau troed congrid, eisteddled dan do ar gyfer 100 o bobl, system uchelseinydd a chyfleusterau lles wedi cael eu gosod, gyda chymorth cyfraniad o £1,000 gan Magnox.

- Yn ddiweddar, cafodd Clwb Pêl-droed Llanuwchllyn £1,000 tuag at yr eisteddle newydd ar gyfer 100 o bobl, ar ôl codi £16,000 yn rhagor i sicrhau bod y Clwb hefyd yn bodloni meini prawf newydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Dyma rai o'r ceisiadau trawsnewid mwy o faint sy'n cael cymorth parhaus:

- Cafodd Prosiect STEM y Gogledd hefyd ei gymeradwyo ar gyfer y rownd nesaf o gyllid. Rhoddwyd £50,250 arall i'r rhaglen i barhau â'r drydedd flwyddyn. Mae Magnox wedi cefnogi'r prosiect drwy gyfrannu £201,000 dros bedair blynedd tuag at y prosiect sydd werth £2m. Mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn dda, gyda 17 ysgol bellach yn cymryd rhan. Mae'r tri mentor sy'n gwasanaethu Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy wedi meithrin perthynas waith dda gyda'r ysgolion a gyda mudiadau a chyflogwyr lleol, ac wedi cynnal dros 40 o ddigwyddiadau llwyddiannus hyd yma. Yn anffodus, cafodd y digwyddiad a oedd wedi'i drefnu ar gyfer safle Trawsfynydd ym mis Mawrth ei ganslo oherwydd y cyfyngiadau symud yn sgil pandemig Covid-19. Mae'r tîm wedi bod yn rhagweithiol ac wedi addasu i ffordd newydd o weithio, gan gynnal digwyddiadau ar-lein drwy ddefnyddio Zoom a sesiynau un-i-un gyda myfyrwyr. Buont yn gweithio ar wyth pwnc yn ystod y cyfyngiadau symud, gyda gweithgareddau dilynol y gallai plant eu gwneud gartref.
- Y Bartneriaeth Awyr Agored - mae £36,000 arall wedi cael ei ryddhau i gefnogi'r prosiect pum mlynedd, Llwybrau at Waith, gwerth £1.5m am ail flwyddyn. Y llynedd, darparodd y rhaglen glodwiw hon brofiadau blasu gweithgareddau awyr agored i dros 1,600 o bobl ag anableddau; o'r rhain roedd gan 115 o'r cyfranogwyr broblemau iechyd meddwl. Fe wnaeth y prosiect hefyd gefnogi 35 o gyfleoedd cyflogaeth anuniongyrchol yn yr awyr agored. Mae cyfyngiadau symud Covid-19 wedi effeithio ar y prosiect hefyd, ond maen nhw'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar gynllun adfer ar ôl Covid i ddychwelyd i'r awyr agored yn ddiogel yn ystod y misoedd nesaf. Mae gwasanaethau wedi parhau er eu bod ar raddfa lai ac yn golygu ymgysylltu â chyfranogwyr drwy sianeli ar-lein, gan gynnal cyrsiau fel cymorth cyntaf a sesiynau cynnal a chadw beiciau. Mae cwpl o staff wrth gefn i gynorthwyo'r GIG yn wirfoddol drwy fynd â chleifion yr amheuir bod Covid arnynt i ysbyty cymunedol lleol Bryn Beryl ym Mhwlheli i'w profi yn eu bws mini sydd wedi'i addasu'n arbennig, os bydd angen. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ailysgogi prosiect peilot 'Iach ac Egniol', sy'n gweithio gyda thimau iechyd meddwl yn yr ardal; rhaglen Llwybrau at Waith 12 wythnos ar gyfer unigolion 18-24 oed di-waith o Ynys Môn a Gwynedd a phrosiect sy'n gweithio gydag ysgolion anghenion arbennig sy'n helpu staff gydag asesiadau risg a defnyddio offer chwaraeon yn ddiogel gan roi hyder iddynt i fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored hefyd yn helpu i baratoi clybiau chwaraeon lleol i ailagor yn ddiogel. Mae'r Rhaglen Wirfoddoli gyda Pharc Cenedlaethol Eryri nawr yn cynnig aelodaeth am ddim, gan annog pobl i gofrestru.

Diolchodd y Cadeirydd i Mair Jones am ei chyflwyniad ac am y gwaith rhagorol a wnaed gan y tîm yn gweinyddu'r grantiau cymunedol pwysig hyn. Anogwyd yr aelodau i hyrwyddo'r grantiau yn eu cymunedau.

15. Unrhyw fater arall

Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd wedi croesawu Huw Jones o Undeb Amaethwyr Cymru fel aelod newydd yn y cyfarfod, ac yn anffodus roedd Huw wedi gorfod gadael y cyfarfod cyn y diwedd. Gobeithiwn ei weld eto yn y Flwyddyn Newydd.

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a daeth â'r cyfarfod i ben am 12.20

16. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dyddiad: 10 Mehefin 2021 (yn dilyn taith ar y safle yn y bore)
Amser: 1pm
Lleoliad: Canolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd